


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Llywodraethu ac Archwilio

# Y Cynllun Ymateb i Dwyll

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:


**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**


Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.


**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Llywodraethu ac Archwilio

# Y Cynllun Ymateb i Dwyll

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

# Cynnwys


Y Cynllun Ymateb i Dwyll ..... 1

Rhoi gwybod am dwyll neu amheuaeth o dwyll: ..... 1

Cyfrifoldeb am ymchwiliad: ..... 1

Ymchwilio i dwyll: ..... 1

Rhoi gwybod i asiantaethau allanol: ..... 2

Ar ôl yr ymchwiliad: ..... 2

ATODIAD A Cynghorion ynghylch y cynllun ymateb i dwyll ..... 3

Cofiwch ..... 3

Peidiwch â ..... 3

# Y Cynllun Ymateb i Dwyll

## Rhoi gwybod am dwyll neu amheuaeth o dwyll:

**sy'n ymwneud â chyflogai neu unigolyn neu sefydliad allanol:**

Os ydych yn amau bod achos o dwyll wedi digwydd, rhaid ichi roi gwybod amdano ar unwaith. Gallwch wneud hyn naill ai drwy ddilyn y drefn a nodir yn y polisi chwythu'r chwiban neu drwy siarad yn uniongyrchol ag un o'r canlynol:

– Y rheolwr llinell

– Pennaeth y gwasanaeth;

– Y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Tîm Cyllid; a'r

– Prif Weithredwr a’r Clerc.

Hefyd, rhaid i staff roi gwybod i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am unrhyw amheuon.

Sut bynnag y rhoddir gwybod am y twyll, caiff y person sy’n tynnu sylw ato’r un diogelwch ag a roddir i unrhyw un sy'n datgelu gwybodaeth o dan y polisi chwythu'r chwiban.

**Achos sy’n ymwneud ag Aelod Cynulliad**

Yn yr achosion hyn, mae angen rhoi gwybod i’r Prif Weithredwr a’r Clerc, a fydd wedyn yn trefnu i gynnal unrhyw ymchwiliad.

## Cyfrifoldeb am ymchwiliad:

Pan roddir gwybod am achos o dwyll, y Pennaeth Archwilio Mewnol sydd â chyfrifoldeb  cyffredinol am yr ymchwiliad. Gall y Pennaeth Archwilio Mewnol wedyn fanteisio ar sgiliau ac arbenigedd aelod o staff sydd â’r cymwysterau priodol i gynnal ymchwiliadau manwl a gall hyn gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Tîm Cyllid.

Os bydd y twyll yn ymwneud â’r Pennaeth Archwilio Mewnol, yna’r Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb cyffredinol.

Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb cyffredinol dros unrhyw ymchwiliad sy'n ymwneud ag Aelod Cynulliad.

## Ymchwilio i dwyll:

Cynhelir ymchwiliad i **bob** achos o dwyll y ceir gwybod amdanynt. Bydd manylion yr ymchwiliad yn amrywio’n ôl maint a natur y twyll a’r person/pobl sydd ynghlwm wrth yr achos. Fodd bynnag, bydd yr egwyddorion a ganlyn yn berthnasol i achosion yn ymwneud â chyflogeion neu unigolion a sefydliadau allanol.

– Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol bob amser yn rhoi gwybod i’r Prif Weithredwr a’r Clerc cyn gynted ag y caiff wybod am yr amheuon. Os yw'r Prif Weithredwr a’r Clerc yn  ymwneud â'r twyll, yna bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

– Mae’n bosibl y bydd angen dweud wrth aelodau eraill o staff e.e. rheolwyr llinell, staff cyllid. Bydd aelodau eraill o staff yn cael gwybod dim ond os bydd angen a rhaid i bawb drin y wybodaeth yn gyfrinachol.

- Y Tîm Archwilio Mewnol fydd yn goruchwylio'r ymchwiliad a gall ddefnyddio staff y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Tîm Cyllid i gynnal ymchwiliadau manwl. Caiff yr achos ei oruchwylio ar y cyd â'r rheolwr llinell perthnasol neu berson arall a benodir. Ym mhob achos, bydd un person yn cael ei benodi'n rheolwr yr achos.
- Os yw'r twyll yn ymwneud â cherdyn credyd, bydd darparwr y cerdyn yn cael gwybod cyn gynted â phosibl.
- Gall y Pennaeth Archwilio Mewnol benderfynu gorfodi newidiadau dros dro mewn gweithdrefnau (e.e. prosesau archebu / awdurdod cyllidebu / atal cardiau credyd) rhag i achosion eraill godi tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.
- Os ystyrir bod angen gwahardd aelod o staff yn ystod yr ymchwiliad, caiff hyn ei wneud drwy gyfrwng gweithdrefnau Adnoddau Dynol arferol.

## Rhoi gwybod i asiantaethau allanol:

Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen cynnwys asiantaethau allanol yn yr ymchwiliad.

**Darparwyr cardiau credyd** – mewn achos o dwyll sy'n ymwneud â cherdyn credyd, rhaid rhoi gwybod i ddarparwr y cerdyn.

**Yr heddlu** – os daw tystiolaeth i'r amlwg am achos o dwyll yn erbyn y Cynulliad Cenedlaethol, fel arfer, bydd angen dweud wrth yr heddlu oni bai bod y twyll yn ymwneud â  cherdyn credyd a bod darparwr y cerdyn yn penderfynu ymchwilio i'r mater.

**Archwilio Allanol (WAO)** – rhaid i'r holl staff gydweithredu'n llawn ag unrhyw ymholiadau sy'n rhan o broses archwilio allanol. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r ymholiadau hyn gael blaenoriaeth dros unrhyw ymchwiliad mewnol neu'r broses ddisgyblu. Fodd bynnag, lle bo modd, bydd timau ymchwilio'n cydgysylltu eu hymholiadau er mwyn sicrhau bod adnoddau a gwybodaeth yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosibl.

## Ar ôl yr ymchwiliad:

Pan ddaw'r ymchwiliad i ben, ac os oes tystiolaeth bod twyll wedi digwydd, cymerir y camau a ganlyn:

- Camau disgyblu yn erbyn aelod o staff yn unol â gweithdrefnau Adnoddau Dynol, neu gamau priodol eraill yn erbyn unrhyw drydydd parti allanol;
- Adolygiad Rheoli* o'r amgylchiadau'n ymwneud â'r twyll i benderfynu a oes angen newid gweithdrefnau i gryfhau'r system rheoli ac atal achosion tebyg;
- Adolygiad Rheoli* o'r posibilrwydd y gallai'r unigolyn/ion a oedd yn rhan o'r twyll fod yn rhan o achosion eraill o dwyll;
- Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn eu cyfarfod nesaf.

** Bydd y Prif Weithredwr a'r Clerc, y Pennaeth Archwilio Mewnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn trafod i ba raddau y dylai'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol fod ynghlwm wrth yr Adolygiad Rheoli.*

# ATODIAD A
## Cynghorion Ynghylch y Cynllun Ymateb i Dwyll

### Cofiwch

Nodi’ch pryderon yn ysgrifenedig:

– cofnodwch yr holl fanylion perthnasol, fel natur eich pryder, enwau'r rhai rydych yn credu sy’n rhan o’r achos, manylion unrhyw sgwrs dros y ffôn neu sgyrsiau eraill, gan nodi enwau, dyddiadau, amseroedd ac enwau unrhyw dystion;

– nid oes angen i’r nodiadau fod yn or-ffurfiol, ond dylech nodi’r amser a’r dyddiad a llofnodi’r nodiadau;

– mae’n bwysig mynd ati i nodi’r manylion cyn gynted â phosibl. Mwya’n y byd yw’r oedi, mwyaf yw’r siawns na fyddwch yn cofio’n glir ac y bydd yr achos yn gwanhau.

Cadwch unrhyw dystiolaeth sydd gennych:

– mae ansawdd y dystiolaeth yn hanfodol ac mae gwell siawns o fedru cynnal ymchwiliad effeithiol os yw’r dystiolaeth yn uniongyrchol ac yn ddiriaethol.

Rhowch wybod am unrhyw amheuon ar unwaith:

– rhowch wybod i’ch rheolwr llinell i ddechrau. Os nad yw hynny’n briodol, mae rhagor o gyfarwyddyd ar ddatgelu gwybodaeth i’w chael yn y Cynllun Ymateb i Dwyll a Llwgrwobrwyaeth (uchod) a Pholisi Chwythu'r Chwiban Comisiwn y Cynulliad (ar y fewnrwyd);

– yn ogystal â hyn, rhaid rhoi gwybod i’r Pennaeth Archwilio Mewnol am unrhyw bryderon.

### Peidiwch â

Bod ag ofn sôn am eich pryderon:

– mae’r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn diogelu cyflogeion sy’n codi pryderon rhesymol drwy ddilyn y drefn briodol (chwythu’r chwiban);

– ni fydd neb yn gwahaniaethu yn eich erbyn nac yn eich erlid os dilynwch y gweithdrefnau hyn a chaiff y mater ei drin yn sensitif ac yn gyfrinachol.

Dweud wrth neb arall heblaw’r rhai sydd â’r awdurdod i ymdrin â’r mater:

– mae’n bosibl bod esboniad cwbl resymol dros y digwyddiadau sydd wedi codi’ch amheuon. Gallech niweidio cydweithwyr cwbl ddiniwed drwy ledaenu amheuon di-sail.

Trafod y mater gyda’r person rydych yn ei amau neu geisio ymchwilio i'r mater eich hun:

– mae rheolau arbennig yn ymwneud â chasglu tystiolaeth i'w defnyddio mewn achosion troseddol. Os nad ydych yn gyfarwydd â’r rheolau hyn, mae’n bosibl y gallech ddinistrio’r achos.